# GWIREDDU GWELEDIGAETH 3G CYMRU

## MEDDWL FEL UN

CYMDEITHAS BÊL-DROED CYMRU

Gwybodaeth ar gyfer partneriaid lleol a chymunedol

CBD CYMRU

# GWELEDIGAETH 3G AR GYFER CYMRU





Yn ddiweddar, llwyddodd Cymdeithas Bêl-droed Cymru (CBDC) i ennill cyllid grant gwerth €3 miliwn gan UEFA sydd wedi creu'r cyfle i ddatblygu nifer o arwynebau chwarae artiffisial Trydedd Genhedlaeth (neu '3G') o ansawdd ledled Cymru.

Bydd y cyfleusterau 3G hyn, a gaiff eu datblygu gyda'r arian grant, yn cael eu defnyddio'n bennaf gan glybiau aelod CBDC ond byddant hefyd yn ganolbwynt ar gyfer gweithgarwch cymunedol ehangach. Y gobaith yw y bydd buddsoddi'n gall yn arwain at ddatblygu cyfleusterau gwych gyda'r potensial i'w defnyddio drwy gydol y flwyddyn; helpu i ddatblygu hybiau ar gyfer gweithgarwch cymunedol; sbarduno mwy o gydweithio gyda phartneriaid lleol a defnyddwyr eraill a sicrhau adfywiad cymunedol, cynhwysiant cymdeithasol a manteision iechyd ehangach ar gyfer y cymunedau hynny y maent wedi'u lleoli ynddynt.

Mae CBDC yn credu'n gryf y bydd y buddsoddiad arfaethedig hwn nid yn unig yn helpu ei chlybiau aelod i wneud y mwyaf o'r 'ysbryd cadarnhaol' sy'n bodoli ym mhêl-droed Cymreig ar hyn o bryd, ond bydd hefyd yn cynnig amrywiaeth o fanteision eraill ar bob lefel o'r gêm, i ddefnyddwyr chwaraeon eraill ac o fewn cymunedau unigol ledled Cymru.

Mae buddsoddi mewn cyfleusterau 3G sydd wedi'u cynllunio'n dda yn gallu cynnig nifer o fanteision cydnabyddedig, gydag enghreifftiau ar draws y Deyrnas Unedig a thu hwnt yn dangos sut y gall clybiau pêl-droed weithio gyda phartneriaid a chymunedau lleol i gynyddu lefelau cymryd rhan a chreu cyfleusterau cynaliadwy sy'n mwynhau llwyddiant hirdymor.





# Y FFRAMWAITH 'CLWB MODEL'

Mae Gweledigaeth 3G y Gymdeithas ar gyfer Cymru yn seiliedig ar y dyhead i bob clwb aelod ddatblygu cyfleusterau o'r radd flaenaf, yn ogystal ag 'ethos' sy'n eu gweld yn dod yn hybiau ar gyfer y gymuned ehangach. Mae sefydlu arwyneb 3G sydd wedi'i gynllunio'n dda yn elfen bwysig o wireddu'r syniad o ddatblygu 'clwb fel hwb', ond er mwyn llwyddo o ddifrif, mae nifer o elfennau eraill sydd yr un mor bwysig.

Bydd y 'Clwb Model' yn ased i'r gymuned leol drwy:-

- **Ddarparu cyfleusterau chwaraeon o'r radd flaenaf** – mae'r meysydd 3G diweddaraf yn cynnig arwynebau o safon sy'n gallu gwella'r profiad hyfforddi a chwarae a galluogi clybiau i'w defnyddio drwy gydol y flwyddyn, hyd yn oed pan fo'r tywydd yn wael. Mewn rhai achosion, pan fo'r amgylchiadau a'r arwynebau lleol yn iawn, mae potensial i rannu defnydd o'r cyfleusterau gyda chwaraeon, ysgolion, colegau a chlybiau eraill.
- **Datblygu cyfleusterau a rhaglenni cymunedol** – mae angen i glybiau aelod greu darlun o'r potensial i rannu arwyneb 3G newydd, yn ogystal ag unrhyw adeiladau a chyfleusterau cyfagos, a chymryd i ystyriaeth unrhyw gystadleuaeth bosibl gyda chyfleusterau eraill neu gynlluniau datblygu yn y dyfodol.

- **Cynnal rhaglenni addysgol –** gall clybiau archwilio'r posibilrwydd o ddatblygu partneriaethau gyda sefydliadau addysgol lleol sy'n annog rhannu defnydd. Gallai gwaith i ddatblygu neu addasu adeiladau cysylltiedig greu ystafelloedd cyfarfod neu ystafelloedd TG newydd a darparu cyfleusterau ar gyfer cynnal rhaglenni addysgol ar gyfer plant neu oedolion.
- **Datblygu rhaglenni academi a chynnal cynghreiriau iau –** mae cyfleusterau 3G yn galluogi clybiau i wella eu carfannau a'u rhaglenni datblygu eu hunain drwy gynyddu a gwarantu sesiynau a denu pobl newydd i gymryd rhan.
- **Hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a chwaraeon i bawb –** mae cyrff amrywiol, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Chwaraeon Cymru ac awdurdodau lleol yn annog pobl i fynd ati i chwarae pêl-droed mewn cymunedau dan anfantais, mewn ardaloedd gyda phoblogaethau uchel o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig ac ymhlith pobl sy'n byw gydag anableddau. Mae CBDC yn cefnogi'r gweithgarwch hwn drwy fenter Maes Chwarae Gwastad a byddai cyfleusterau 3G yn creu mwy o gyfleoedd i wneud gwaith cadarnhaol yn y maes hwn.









# PWYSIGRWYDD CYDWEITHIO

Mae'n hanfodol bod pob clwb sy'n cyflwyno cais yn gallu dangos eu bod wedi adolygu ac ystyried pob opsiwn ar gyfer lleoli, defnyddio ac integreiddio cyfleuster 3G newydd. Mae hyn yn dechrau gydag adolygiad lleol manwl a ddylai, ar y lleiaf, geisio:

- Nodi a mapio unrhyw feysydd 3G neu gaeau pob tywydd (Artificial Turf Pitches) hŷn o fewn yr ardal leol ynghyd â'r gofynion defnyddio cyfredol ac arfaethedig ar gyfer gwahanol chwaraeon.
- Sefydlu p'un a oes unrhyw gynlluniau ar y gweill i ddatblygu meysydd 3G newydd eraill – efallai fel rhan o ysgol neu goleg newydd neu gan glybiau chwaraeon eraill.
- Sicrhau bod unrhyw gynnig yn darparu cyfleuster a fyddai'n ategu cyfleusterau eraill yn y rhanbarth.
- Mewn achosion lle mae mwy nag un opsiwn yn bodoli ar gyfer lleoli cyfleuster 3G, dylai clybiau dynnu sylw at gryfderau a gwendidau pob opsiwn o ran y potensial ar gyfer datblygu'r lleoliad i fod yn hwb llwyddiannus ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch cymunedol.
- Mae angen i bob opsiwn gymryd i ystyriaeth amodau a phriodoldeb gwahanol safleoedd, gan adolygu pa leoliadau a fyddai'n cael yr effaith fwyaf ac sydd â'r potensial mwyaf o ran refeniw.
- Cynnwys astudiaeth ddichonoldeb drylwyr a fydd yn dangos pa mor ddichonadwy yw unrhyw gyfleuster newydd, gan gynnwys asesiad o allu'r datblygiad i gynnal lefel gyson o ddefnydd a chreu refeniw dros gyfnod o 15-20 mlynedd (gan gynnwys ailosod y 'carped' o leiaf unwaith yn ystod y cyfnod hwn).

# Y CAMAU NESAF











Ar ôl i glwb aelod gwblhau ei adolygiad lleol, bydd gofyn i unrhyw gais am arian grant gael ei gefnogi gyda chynllun busnes trylwyr sy'n diffinio'n union beth mae'r clwb yn bwriadu ei gyflawni drwy fuddsoddi mewn cyfleusterau newydd a sut mae'r clwb, law yn llaw a'i bartneriaid lleol, yn bwriadu cyflawni hynny.

Bydd pob cynllun busnes yn dangos tystiolaeth o berchnogaeth a/neu ddiogelwch hirdymor y lleoliad a ffafrir, Cynllun Gweithrediadau sy'n amlinellu sut bydd y prosiect yn cael ei strwythuro a'i roi ar waith, cynllun ar gyfer marchnata a staffio'r cyfleuster 3G ar ôl iddo gael ei sefydlu a sut y bydd hynny'n effeithio ar weledigaeth hirdymor y clwb ar gyfer y dyfodol. Bydd y cynllun busnes yn cynnwys Cynllun Ariannol cadarn, sy'n rhagamcanu incwm, gwariant a llif arian disgwyliedig ar gyfer y cyfleuster 3G ac unrhyw ddatblygiadau cysylltiedig.

Lle bo'n bosibl, dylai pob cynllun busnes gynnwys manylion unrhyw ymrwymiad ariannol gan bartneriaid lleol, ynghyd â'r telerau sydd ynghlwm â'r ymrwymiadau hynny. Bydd CBDC yn darparu set fanwl o delerau ac amodau i ymgeiswyr ymlaen llaw, ynghyd â chefnogaeth o wahanol fath drwy gydol y broses i sicrhau'r cyfle gorau posibl o gyflwyno cais llwyddiannus.

**I GAEL RHAGOR O WYBODAETH AM WELEDIGAETH 3G CBDC AR GYFER CYMRU NEU FANYLION AM SUT Y GALL SEFYDLIADAU NEU UNIGOLION GYFRANNU AT BROSIECT PENODOL, CYSYLLTWCH Â CHYMDEITHAS BÊL-DROED CYMRU AR 02920 435830 NEU EWCH I www.CBDC.org.uk**